



Comisiynydd
Cenedlaethau'r
Dyfodol
Cymru

Future
Generations
Commissioner
for Wales



Taith tuag at

Gymru sy'n Gyfrifol ar Lefel Byd-Eang

- 1: Sicrhau fod ein cadwyni cyflenwi'n** deg, yn foesebol a chynaliadwy
- 2: Cynorthwyo ymddygiad cynaliadwy** a gwneud y cysylltiadau
- 3: Chwarae ein rhan i sicrhau** fod Cymru'n groesawgar, yn ddiogel ac yn deg i bawb
- 4: Sicrhau ein bod yn deal** pwysigrwydd defnyddio adnoddau'r ddaear yn effeithlon a chyfrannu at lesiant byd-eang
- 5: Gwneud y penderfyniadau cywir yn awr,** i alluogi cenedlaethau'r dyfodol i ffynnu





Comisiynydd
**Cenedlaethau'r
Dyfodol**
Cymru

**Future
Generations**
Commissioner
for Wales



Taith tuag at

Gymru sy'n Gyfrifol ar Lefel Byd-Eang

Yn y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r
Dyfodol, diffinnir y nod hwn fel

*“Cenedl sydd, wrth iddi wneud unrhyw
beth i wella llesiant economaidd,
cymdeithasol, amgylcheddol a
diwylliannol Cymru, yn ystyried
a allai gwneud peth o'r fath gyfrannu'n
gadarnhaol at lesiant byd-eang.”*



Diffinio'r nod

Martin Luther King yr leuengaf a ddywedodd: “cyn i chi orffen bwyta'ch brechwast yn y bore, rydych chi wedi dibynnu ar hanner y byd.”

Mae gan yr hyn yr ydym yn ei wneud bob dydd, ein penderfyniadau a'r ffordd yr ydym yn dewis gwario ein harian ganlyniadau pellgyrhaeddol i wledydd eraill a phobl ar draws y byd. Dengys amcangyfrifon y byddai arnom angen 1.7 Daear i barhau gyda'n lefelau presennol o dwf a defnydd.

Mae'n hollbwysig ein bod, wrth feddwl am wella llesiant pobl yng Nghymru, hefyd yn meddwl am ein heffaith ar eraill. Nid defnyddwyr byd-eang yn unig ydym ni, ond dinasyddion byd-eang, ac mae gennym gyfrifoldeb i sicrhau nad ydym yn gweithredu mewn ffordd sy'n niweidiol i eraill. Golyga hyn ein bod yn sicrhau ein bod yn ymgysylltu â chadwyni cyflenwi moesegol, yn defnyddio ein rhan deg o adnoddau naturiol y ddaear, yn addasu i'r newid yn yr hinsawdd, yn gweithio i wneud Cymru'n lle croesawgar i bawb, gan wneud y penderfyniadau ariannol cywir ac addysgu pobl eraill pa mor bwysig ydyw cyfrifoldeb byd-eang.



Astudiaethau achos

Trwy'r ddogfen hon fe welwch nifer o adroddiadau sy'n berthnasol i'r pwnc. Os rydych yn gweld y symbol hwn cliciwch ar y ddolen i ddarllen y stori.



Diffinio'r nod

Ble i ffocysu gweithredu wrth gyfrannu at y nod hwn

Caffaelwch nwyddau a gwasanaethau mewn ffyrdd sy'n cyfrannu'n gadarnhaol at lesiant byd-eang

[\(Gweler taith tuag at Gymru sy'n gyfrifol ar lefel byd-eang pwnc 1: Defnydd a chaffael moesegol\)](#)

Darparwch gyfleoedd i bobl ifanc ddysgu am a deall ein heffaith yn fyd-eang

[\(Gweler taith tuag at Gymru sy'n gyfrifol ar lefel byd-eang pwnc 2: Dinasyddiaeth ac arweinyddiaeth fyd-eang\)](#)

Sicrhewch fod ein cymunedau'n croesawu pawb, gan gyfrannu at lesiant cymdeithasol a diwylliannol

[\(Gweler taith tuag at Gymru sy'n gyfrifol ar lefel byd-eang pwnc 3: Cydsefyll a heddwch\)](#)

Defnyddiwch adnoddau naturiol yn ddoeth, gan gyfrannu at lesiant amgylcheddol yn fyd-eang ac yng Nghymru

[\(Gweler taith tuag at Gymru sy'n gyfrifol ar lefel byd-eang pwnc 4: Ein rhan deg o adnoddau naturiol\)](#)

Gwnewch benderfyniadau ariannol sy'n gwella llesiant economaidd yn fyd-eang ac yng Nghymru

[\(Gweler taith tuag at Gymru sy'n gyfrifol ar lefel byd-eang pwnc 5: Buddsoddi a dargyfeirio teg a moesegol\)](#)

Gofynion statudol eraill mewn perthynas â'r nod hwn

Bwriad y **[Ddeddf Caethwasiaeth Fodern](#)** 2015 oedd brwydro yn erbyn caethwasiaeth modern yn y DU, ac mae'n cyfnerthu troseddau blaenorol sy'n berthnasol i fasnachu pobl a chaethwasiaeth. Mae gan y llywodraeth ganllawiau ar gyfer sefydliadau ar sut i sicrhau nad yw caethwasiaeth a masnachu pobl yn digwydd yn eu busnes neu eu cadwyni cyflenwi [yma](#).



Mae rhai o'r camau a'r gweithrediadau yn y ddogfen hon yn cyd-fynd â'r polisiau a nodir mewn deddfwriaeth - mae camau a gweithrediadau penodol sy'n glynu wrth y rhain wedi eu hamlygu mewn oren gyda symbol 'St'

Galluogwyr

Mae'r nod hwn yn **fwy tebygol o ddigwydd:**

- Pan fydd cymdeithas sifil yn cefnogi gweithredu sy'n cael effaith byd-eang cadarnhaol.
- Pan gytunir bod amrywiaeth yn uno cymunedau yn hytrach na'u rhannu.
- Pan fydd pwysigrwydd gweithredu byd-eang yn cael ei werthfawrogi a'i ddeall: a heb fod yn cael ei weld fel rhywbeth syml, dymunol 'ychwanegol' at fusnes-fel-arfer.
- Pan fydd gwleidyddion ac uwch arweinwyr eraill yn berchen ar y weledigaeth i gynorthwyo prosiectau byd-eang ac yn deall ein cyfraniad cadarnhaol ac yn croesawu ymwelwyr rhyngwladol.
- Pan fydd yna ddealltwriaeth o Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig a'u perthnasedd i Gymru.



Analluogwyr

Mae'r nod hwn yn **llai tebygol o ddigwydd:**

- Pan fydd diffyg dealltwriaeth o'r hyn a olygir gan fod yn gyfrifol yn fyd-eang.
- Pan fydd gwleidyddion ac uwch arweinwyr yn mabwysiadu ymagwedd 'gofalu am Gymru gyntaf', gan anwybyddu popeth arall.
- Pan na fydd mesurau neu ddangosyddion ar gael i ddisgrifio natur ymagweddau effeithiol tuag at fod yn gyfrifol yn fyd-eang.
- Pan fydd sefydliadau ynghlwm wrth drefniadau sy'n bodoli eisoes – megis contractau caffael, sy'n cyfyngu ar gyfleoedd.
- Pan fydd arbenigedd perthnasol mewn sefydliadau'n gyfyng ac mewn seilos.





Comisiynydd
**Cenedlaethau'r
Dyfodol**
Cymru

**Future
Generations**
Commissioner
for Wales



Taith tuag at

Gymru sy'n Gyfrifol ar Lefel Byd-Eang

4: Ein Rhan Deg o Adnoddau Naturiol

Sicrhau ein bod yn deal pwysigrwydd
defnyddio adnoddau'r ddaear yn effeithlon a
chyfrannu at lesiant byd-eang

Diffinio'r mater

Rydyn ni'n clywed yn aml ar y newyddion bod stocia pysgod yn mynd yn llai a mae rhannau sylweddol o'r goedwig law yn cael eu colli. Mae rheoli ein hadnoddau naturiol yn hollbwysig ar gyfer sicrhau ein bod yn parhau i fwynhau'r hyn yr ydym yn ei wneud heddiw yn y dyfodol. Mae gan yr hyn yr ydym yn ei wneud yng Nghymru'n medru cael effaith cadarnhaol ac/neu negyddol yn rhywle arall ar y blaned ac felly mae'n hollbwysig bod cyrff cyhoeddus yng Nghymru'n cynorthwyo'n egniol y nod o gael Cymru sy'n gyfrifol ar lefel byd-eang.

Drwy leihau ein hallyriadau, yn arbennig yn ein sector drafnidiaeth a gwastraff, byddwn hefyd yn lleihau ein llygredd aer a fydd yn fanteisiol i'n llesiant ac yn lleihau ein heffaith negyddol yn fyd-eang. Drwy ddefnyddio llai o ddŵr, rydyn ni'n sicrhau ein bod yn defnyddio dim ond ein cyfran deg o adnoddau'r ddaear tra hefyd yn lleihau gwastraff a chostau. Gallwn hefyd gynorthwyo cymunedau'r cyhydedd hynny sydd yn y perygl mwyaf oddi wrth y newid yn yr hinsawdd. Mae'n hollbwysig ein bod yn gwneud popeth o

fewn ein gallu i leihau ein hól-troed carbon, yn gweithredu i liniaru'r newid yn yr hinsawdd, a chyfrannu'n gadarnhaol tuag at warchod a gwella bioamrywiaeth.

Synergedd a chysylltiadau â theithiau eraill



Taith tuag at Gymru gydnerth
Pwnc 5: Defynndio adnoddau naturiol



Taith tuag at Gymru lewyrchus
Pwnc 1: Caffael teg a lleol

Gwneud **Newidiadau** Syml

Ystyriwch **Efeillio eich Toiled** gydag un o wlad sy'n datblygu.

e.e. Mae Cynulliad **Cenedlaethol Cymru** wedi gefeillio eu toiledau cyhoeddus, a hefyd **Aelod y Cynulliad, Huw Iranca Davies** yn swyddfa ei etholaeth, ac [Ysgol John Bright](#) yn Llandudno.

Cymerwch ran yn yr [Awr Ddaear](#).

Mabwysiadwch bolisi sy'n gwhardd [plastig defnydd sengl](#).

Cyfrifwch a deallwch ôl-troed carbon eich a chynorthwywch eich staff ac ymwelwyr i ddeall eu hól-troed carbon personol hwythau hefyd.

ee

e.e. Mae gan [WWF gyfrifannell ôl-troed carbon](#) ac felly hefyd yr [Ymddiriedolaeth Garbon](#).

Deallwch sut y gallai eich sefydliad gynorthwyo'r defnydd o gerbydau trydan a hydrogen.

Cynorthwywch gynlluniau beicio i'r gwaith/crëwch gronfa feiciau a chynigiwch sesiynau trwsio/cynnal a chadw beiciau i'ch staff.

ee

e.e. Menter rhannu beiciau yw [NextBike](#) sy'n cynyddu hygyrchedd cyhoeddus i feiciau ac sy'n annog teithio llesol

Cefnogwch gyfleoedd rhannu-ceir/cronfa geir ac anelwch at gynorthwyo [diwrnodau heb geir](#) yn eich ardal.

Edrychwch ar eich goleuadau a gosodwch oleuadau amgen addas megis deuod allyrru golau (LED), gan osgoi llygredd golau eithafol a fedr effeithio ar yr amgylchedd naturiol.

Cynorthwywch [gynlluniau tyfu coed mewn gwledydd cyhydeddol](#), yn arbennig y rhai hynny sydd wedi eu datblygu leiaf, fel y gallant addasu i'r newid yn yr hinsawdd.

ee

e.e. [PLANT! Tyfwyd 36,000 o goed bob blwyddyn yng Nghymru](#) ac Uganda ar gyfer pob plentyn a enir neu a fabwysiedir yng Nghymru.

Gwneud Newidiadau Syml

Adolygwch eich polisi ar allyriadau carbon gyda'r nod o wneud iawn am y carbon a gynhyrchir gennych drwy gynorthwyo mentrau arloesol mewn mannau eraill, drwy gynlluniau achrededig.

e.e. Mae [carbon niwtral](#) yn offeryn defnyddiol ar gyfer cefnogi hyn.

Darparwch gyfleoedd dysgu am y newid yn yr hinsawdd a grymuswch eraill i ddysgu sut y gallwn ei liniaru drwy sgriniau gwybodaeth/fideos yn eich derbynfa ac ar eich gwefan. Gweler sut aeth [Ysgol Gymunedol Sant Cenydd](#) ati i wneud hyn.

Defnyddiwch 'Ddiwrnodau Rhyngwladol' y Cenhedloedd Unedig i addysgu ac ysbrydoli pobl i ddefnyddio eu rhan deg o adnoddau naturiol.

e.e. [22ain Mawrth yw Diwrnod Dŵr y Byd](#), 5ed Mehefin yw [Diwrnod Amgylchedd y Byd](#).

Archwiliwch y posibilrwydd o ddefnyddio cerbydau trydan a hydrogen yn eich fflyd, ble bynnag mae hynny'n bosibl.

Archwiliwch sut y gallwch ddysgu rheoli'r maint o gig yr ydych yn ei fwyta, drwy fentrau megis ['Meat Free Monday'](#) a ['Part Time Carnivore'](#).

Cynorthwycwch fentrau caffis trwsio cymunedol lle gallwch chi a'ch cymuned drwsio neu ail-bwrpasu eitemau, a'u hatal rhag mynd i safleoedd tirlenwi a chynorthwycwch [fentrau dim gwastraff](#) sy'n lleihau'r hyn sy'n mynd i safleoedd tirlenwi.

e.e. [Caffis Gofal a Thrwsio Caerdydd](#) [Credyd podlediad: Seismic Wales].

Caffaelwch a phlannwch goed a llwyni brodorol fel dewis cyntaf, neu sicrhewch fod pob coeden a phlanhigyn a blennir yn werthfawr i natur.

Gwneud **Newidiadau** Syml

Gosodwch osodiadau dŵr effeithlon yn eich adeiladau, megis toiledau, wrinalau heb ddŵr a chasgenni dŵr ar adeiladau. Rhowch nhw i gymunedau i gadw a defnyddio dŵr glaw.

ee

e.e. Gosodiad cyntaf wrinalau heb ddŵr gan **Lywodraeth Cymru** yn swyddfa Rhyd-y-car, Merthyr Tudful ym mis Chwefror 2016. Cafodd y cynllun peilot groeso mawr felly mae unedau pellach yn cael eu gosod mewn swyddfeydd eraill.

St

Sicrhewch fod yr holl dir sy'n eiddo i chi'n cydymffurfio â deddfwriaeth amgylcheddol i leihau'r posibilrwydd o faterion llygredd dŵr.

CARTREF

Bod Yn Fwy Anturus

Gosodwch dechnoleg ailgylchu dŵr llwyd yn eich adeiladau i leihau'r defnydd o ddŵr yfed wrth gyflawni tasgau lle nad oes ei angen, megis fflysio toiledau.

e.e. Mae Polisi Cynaliadwyedd Dŵr [Denmark Farm](#) yn sicrhau bod systemau yn eu lle sy'n arbed dŵr ac sy'n trin dŵr gwastraff drwy ddefnyddio prosesau naturiol.

Gosodwch systemau arbed ynni megis goleuadau sensitif i symudedd a gwresogi mentrau eraill.

e.e. Mae **Amgueddfa Cymru** wedi gosod lleithyddion uwchsonig sy'n arbed 90% o ynni ac wrth gwrs gost. Mae ganddynt hefyd baneli solar ar eu toeau.

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr wedi buddsoddi mewn gwres o'r ddaear i leihau ei ddibyniaeth ar danwydd ffosil a lleihau'r costau i'r gymuned.

Sicrhewch fod pob datblygiad/seilwaith/prosiectau adnewyddu'n cyfrannu at lesiant byd-eang, yn cynnwys y deunyddiau a ddefnyddir gennych, cylch bywyd y cynnyrch, y llygredd a grëir ganddynt a'r bobl sydd wedi helpu i'w creu.

e.e. Mae Ysgolion yr 21ain Ganrif yn gynllun arloesol sy'n cynorthwyo prosiectau seilwaith ysgolion cynaliadwy ac mae Cyngor Sir Abertawe'n adeiladu cartrefi [Passivhaus](#) ar 2 safle yn y sir ar gyfer tai cymdeithasol ac yn cyflwyno 'Safon Abertawe' ar gyfer eiddo effeithlon mewn ynni uchel a byddant hefyd yn maximeiddio llafur a chadwyni cyflenwi lleol, gyda tharged o 85% o'r prif gyflenwyr wedi eu lleoli o fewn radiws o 20 milltir.

ee

ee

ee

Bod Yn Fwy Anturus

Chwaraewch ran weithgar mewn sicrhau [diwrnod heb geir](#) yn eich ardal.

Rhowch y gorau i'ch cwpanau, platiau, cyllyll a ffyrc, deunydd pacio plastig untro a'r rhai polystyrene.

e.e. Mae gan **Chwaraeon Cymru** gyfleuster compostio ar eu safle ac maen nhw'n defnyddio dim ond cwpanau y gellir eu compostio. Mae ganddyn nhw dwll turio, gorsaf ail-lenwi dŵr sy'n rhad ac am ddim i bawb ac maen nhw'n annog pobl i'w haildefnyddio. Maen nhw hefyd yn ôl-osod goleuadau i rai LED. Mae ganddynt foeleri modwlar, ceir cronfa allyriadau isel ac ailgylchu ar draws y ganolfan.

Sicrhewch fod gan eich holl ystadau o leiaf un pwynt trydanu cerbyd trydan a bod y rhain ar gael ar gyfer cerbydau gwaith a cherbydau personol lle mae angen i staff deithio mewn car.

Newidiwch eich fflyd gerbydau i rai trydan/hydrogen megis [Cyngor Dinas Caerdydd](#), [Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili](#) a [Chyngor Sir Fynwy](#).

e.e. Edrychwch ar y [car hydrogen](#) sy'n cael ei gynhyrchu yng Nghaerdydd sy'n torri tir newydd.

Cynyddwch 'barthau sy'n rhydd o blastig untro' a defnyddiwch eitemau amgen addas yn lle'r rhai plastig (gan sicrhau y gellir eu hailgylchu).

e.e. [Cynllun rhydd o blastig untro](#) **Cynulliad Cenedlaethol Cymru**.

Cynyddwch fynediad i barthau [ail-lenwi](#) prif gyflenwadau dŵr, yn rhad ac am ddim ar draws ffyrdd a manau eraill sy'n hygyrch i'r cyhoedd.

Cyhoeddwch adroddiadau ac ymgysylltwch â'r cyhoedd am y modd yr ydych yn lleihau effaith eich carbon.

Datblygwch a chyhoeddwch strategaeth i ddod yn garbon niwtral, yn cynnwys eich cadwyn gyflenwi.

ee

ee

ee

Bod Yn Fwy Anturus

Gwrthbwschwch 100% o allyriadau carbon a gynhyrchir gan y sefydliad drwy deithio, a dywedwch am unrhyw gynnydd mewn teithio carbon niwtral.

e.e. Mae cynllun **Llywodraeth Cymru'n** cynorthwyo prosiectau [Maint Cymru](#) i liniaru effaith teithio staff.

Gwrthbwschwch allyriadau carbon drwy gynlluniau achrededig megis [Safon Aur Gwrthbwysu Carbon drwy Fasnach Deg](#) ac [United Purpose - elusen wedi ei lleoli yng Nghymru sy'n cynorthwyo gwledydd sy'n datblygu i ymateb i'r newid yn yr hinsawdd yn cynnwys mynediad i ddŵr a gwrthbwysu carbon.](#)

Cynyddwch y gyfran o [fwyd sy'n seiliedig ar blanhigion](#) mewn unrhyw fannau sy'n arlwyo neu'n gwerthu bwyd.

Defnyddiwch gynllun [talu blaendal yn ôl](#) neu ddull tebyg i leihau gwastraff a denu cyfranogiad yng nghylch bywyd cynhyrchion.

Perchnogi'r Uchelgais

Gweithredu cydweithredol neu genedlaethol i Berchnogi eich Uchelgais

Mae Cymru'n Genedl Ddiwastraff drwy gynhyrchu cynaliadwy, defnyddio cynaliadwy a gyda gweithdrefnau diwedd oes yn eu lle ar gyfer pob cynnyrch.

Mae 100% o fewnforion i Gymru'n rhydd o ddatgoedwigo.

Mae Cymru wedi gwahardd defnydd domestig o blaladdwyr ac wedi addysgu pobl am ddulliau amgen.

Mae bioamrywiaeth Cymru'n ffynnu, yn cynnwys ansawdd pridd da ac aer glân ac mae Cymru'n ardal gadwraeth forol.

Mae Cymru'n genedl ail-lenwi.

Mae Cymru'n genedl [garbon-niwtral](#).

Sut fedr eich sefydliad Berchnogi'r Uchelgais

Nid ydych yn defnyddio unrhyw eitemau plastig untro ac rydych yn sefydliad di-garbon drwy gynhyrchu cynaliadwy, defnyddio cynaliadwy a gyda gweithdrefnau diwedd oes yn eu lle ar gyfer eich holl gynnyrch.

Mae eich sefydliad yn [garbon niwtral](#), yn cynnwys eich cadwyn gyflenwi, ac mae'r bobl yr ydych yn gweithio gyda nhw'n ymwybodol o hyn ac yn gwybod pa mor bwysig yw ei gynnal.

ee

e.e. Mae [prosiect carbon bositif Cyfoeth Naturiol Cymru'n](#) dangos sut mae'n buddsoddi mewn Cymru ddi-garbon.

Engbreiffiau ac adnoddau eraill

[Cost Plastig](#)

Mae gan yr [Ymddiriedolaeth Garbon adnoddau dirifedi defnyddiol](#)

[Mae Ffyniant i Bawb Llywodraeth Cymru: Cymru Carbon Isel](#) yn offeryn defnyddiol i gynorthwyo'ch taith tuag at ddod yn ddi-garbon.

Gweler tudalennau 53-55 am arweinyddiaeth y sector cyhoeddus sy'n cynnwys Polisi 20 ar **niwtraliaeth garbon**, Polisi 21 ar **systemau gwres ardal**, Polisi 23 ar **Gaffael** sy'n rhoi argymhellion penodol ar **Gerbydau Fflyd** ac **Adeiladau**.

Mae **'Adroddiadau ar Gyflwr yr Ystâd' Llywodraeth Cymru dros** y blynyddoedd wedi cynnwys astudiaethau achos ysbrydoledig defnyddiol ar [Leihau Carbon](#) (tud 30), ['Effeithlonrwydd ac Ynni Adnewyddadwy'](#) (tud 30) a [Bioamrywiaeth](#) (tud 31).